



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Y Pwll  
Heol yr Ysgol  
Pwll  
Llanelli  
Sir Gaerfyrddin  
SA15 4AL**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Pwll yn agos at dref Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae ganddi 82 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar hyn o bryd, o gymharu â 97 adeg arolygiad diwethaf yr ysgol. Mae chwech o athrawon amser llawn ar gyfer pum dosbarth, yn cynnwys dau ddosbarth ar gyfer y naw disgybl yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Glan y Môr ar ddiwedd yr ysgol gynradd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned sy'n wynebu lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol. Mae tri deg chwech y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith, ac nid yw Saesneg yn iaith ychwanegol i'r un ohonynt.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 40% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol; mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae gan un deg pedwar o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol y llynedd, ac mae gwaharddiadau dros dro yn brin iawn.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Hydref 2006. Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er Medi 2010 yn dilyn olyniaeth o benaethiaid ac un cyfnod pan oedd yr ysgol yn cael ei rheoli gan bennaeth dros dro. Mae'r ysgol wrthi'n mynd i'r afael â'r her o ostyngiad yn y nifer ar y gofrestr a'i goblygiadau ar lefelau staffio.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pwll yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £5,036 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r isafswm yw £3,114. Mae Ysgol Gynradd Pwll yn yr ail safle ar bymtheg o'r 110 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Digonol</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o fan cychwyn isel wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol;
- bod canran y disgyblion y mae eu deilliant yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion;
- bod cyfran y disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd gydag oedran darllen gwell na chwe mis islaw eu hoedran cronolegol yn gymharol dda;
- bod llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i gymorth targedig;
- bod pob disgybl yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth yn datblygu medrau cymdeithasol, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd da iawn mewn perthynas â'u man cychwyn; a
- bod yr ysgol yn integreiddio disgyblion o'r cyfleuster addysgu awtistiaeth i weithgareddau'r ysgol yn dda.

Fodd bynnag:

- mae safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 yn anfoddhaol;
- mae medrau disgyblion mewn ysgrifennu estynedig yn wan;
- nid yw disgyblion mwy abl a dawnus yn cael digon o her;
- cynnydd digonol yn unig yn eu dysgu a wna disgyblion yng ngwersi cyfnod allweddol 2; ac
- mae'r bwch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn rhy eang, ac mae bechgyn yn tangyflawni'n sylweddol o gymharu â merched.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod y pennaeth wedi cynnwys staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn effeithiol wrth rannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws cryf ar godi safonau;
- bod arweinwyr a rheolwyr wedi llwyddo i roi i'r ysgol sefydlogrwydd yr oedd ei angen yn fawr;
- bod rheolwyr wedi creu ethos cynhwysol cryf, sy'n gwerthfawrogi pob plentyn yn gyfartal;
- bod y broses hunanarfarnu yn nodi'r rhan fwyaf o feysydd y mae angen eu gwella; a
- bod yr ysgol wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon arfarnol, ac nid yw cynllunio datblygiad yr ysgol yn canolbwyntio digon ar amlinellu prosiectau hylaw sydd â thargedau meintiol;
- nid yw prosesau gwell wedi cael digon o amser eto i wella pob agwedd ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ym mhob dosbarth; ac
- mae rôl y llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yn gyfyngedig.

## Argymhellion

- A1 Sicrhau darpariaeth a her ddigonol mewn Cymraeg i wella safonau;
- A2 gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd ag ysgrifennu estynedig mewn Saesneg ac mewn pynciau eraill;
- A3 gwella ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2;
- A4 gwneud prosesau hunanarfarnu yn fwy arfarnol a gwella cynllunio strategol yr ysgol trwy flaenoriaethu gwaith dros gyfnod o flynyddoedd a defnyddio targedau meintiol; a
- A5 datblygu rôl y corff llywodraethol fel ffrindiau beirniadol.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Yn gyffredinol, mae medrau iaith, mathemategol a chymdeithasol disgyblion yn gymharol wael pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Erbyn i ddisgyblion adael y Cyfnod Sylfaen, mae eu cyflawniad yn dda o gymharu â chyflawniad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae disgyblion wedi perfformio'n well na chyfartaledd y teulu o ysgolion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wrth gyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd). Fodd bynnag, nid oedd cyflawniad erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 y llynedd gystal o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, yn enwedig mewn medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u hoedran, eu gallu a'u hanghenion dysgu unigol. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau cymdeithasol, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd, yn aml o sylfaen isel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod gwersi. Fodd bynnag, dim ond digonol yw cynnydd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gan nad yw mwyafrif y disgyblion ar frys i gwblhau eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos safonau siarad a gwrandao da. Mae llawer o ddisgyblion hyn yn siaradwyr huawdl a hyderus ac yn rhoi atebion synhwyrol ac estynedig i gwestiynau.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio mynegiant priodol wrth ddarllen ar goedd ac maent yn deall y materion dan sylw yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau darllen ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol sy'n eu galluogi i ddarllen gyda rhuglder a dealltwriaeth dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau gyda mynegiant da. Mae'r disgyblion mwy abl yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi, ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gymeriadau a rhediad stori.

At ei gilydd, mae disgyblion yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion priodol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu gyda hyder cynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn strwythuro eu hysgrifennu'n dda, er bod ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad yn amrywio gormod. Nid yw disgyblion mwy abl yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu digon ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn perthynas ag ysgrifennu estynedig.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau yn eu cynlluniau addysgol unigol. Mae llawer ohonynt sy'n cael cymorth ymyrraeth yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

Mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn fawr o gymharu â'r bwlch cyfartalog ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn yn gyson dros bedair blynedd o ran cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ym mhob pwnc yng nghyfnod allweddol 2. Roedd canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a enillodd y deiliant uwch (deiliant 6) yn 2012 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn gyffredinol, fodd bynnag, bu tuedd ar i lawr yn y canrannau sy'n cyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddeall a dilyn cyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg. Maent hefyd yn cymhwyso medrau Cymraeg yn dda mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Mae disgyblion yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg, ac nid ydynt yn hyderus i wneud hynny. Mae eu medrau darllen yn Gymraeg ar lefel sylfaenol, a'u medrau ysgrifennu yn gyfyngedig.

### **Lles: Da**

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i aros yn iach. Maent yn gwybod am bwysigrwydd diet iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae ganddynt yr hyder i ddweud wrth oedolyn am unrhyw broblemau. Maent yn gwybod y bydd oedolion yn gwrando ar eu pryderon ac yn gweithredu yn unol â nhw mewn modd sensitif.

Mae cyfraddau presenoldeb yn awr yn dda ac yn cymharu'n dda â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol ers yr arolygiad diwethaf, ac mae gwaharddiadau dros dro yn brin iawn.

Mae ymddygiad mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn dda ar y cyfan, ac mae'r ysgol yn gymuned ddysgu drefnus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd parch, at oedolion ac at ei gilydd. Mae disgyblion yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth yn ymddwyn yn dda iawn ac yn ymgysylltu'n llawn yn y dysgu. Maent yn dawel ar y cyfan ac yn ymddangos yn hapus ac wedi ymgynefino yn yr ysgol. Nid yw rhai disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar ddysgu disgyblion eraill o dro i dro.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n weithredol at y broses o benodi staff ac at benderfyniadau ynglŷn â gwelliannau i amgylchedd yr ysgol. Trwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd da i fynegi barn, ymgymryd â chyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn dda.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
------------------------------------------------------------

<b>Digonol</b>
----------------

### **Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu, sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn dda. Mae ystod amrywiol o weithgareddau allgyrsiol, ac fe gaiff y rhain effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y disgyblion.

Ar y cyfan, mae cwricwlwm eang a chytbwys ar gael i ddisgyblion, sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda iawn ar gyfer disgyblion yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth. Yma, mae'r cwricwlwm yn briodol eang a chytbwys, ac wedi'i addasu'n dda iawn i fodloni anghenion unigol disgyblion.

Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn fanwl a thrylwyr iawn ac yn ymgysylltu â'r ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn aml yn addasu profiadau dysgu'n dda i fodloni anghenion grwpiau penodol, ond nid ydynt bob amser yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigonol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, rhifedd, siarad, gwrando a darllen wedi'i datblygu'n dda. Fodd bynnag, ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn ar gyfer ysgrifennu estynedig. Mae darpariaeth dda iawn i ddisgyblion ag awtistiaeth ddatblygu eu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg yn anfodddhaol yng nghyfnod allweddol 2 gan nad yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau darllen, ysgrifennu neu lafaredd. Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth hefyd ar gyfer y Gymraeg yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth. Mae darpariaeth yr ysgol i hyrwyddo datblygiad gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru yn dda. Mae darpariaeth dda i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

### **Addysgu: Digonol**

Mae mwyafrif yr athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Pan mae'r addysgu'n dda neu'n well, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn, maent yn cynllunio gweithgareddau dysgu unigol i safon dda, yn esbonio'n glir ac yn targedu grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol i ymestyn eu dysgu. Mae'r athrawon hyn a'u staff cymorth yn rhoi anogaeth gadarnhaol i ddisgyblion ym mhob agwedd ar eu gwaith. Fodd bynnag, yng ngweddill y gwersi, lle mae'r addysgu'n ddigonol, mae diffygion yn cynnwys rhediad araf, disgwyliadau isel gan athrawon a diffyg cynllunio i ddarparu tasgau ar gyfer ystod o alluoedd mewn dosbarth. Caiff y nodweddion hyn effaith negyddol ar gynnydd ac ymddygiad disgyblion.

Mae athrawon yn defnyddio profion safonedig yn briodol i fesur cynnydd disgyblion a nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt. Mae'r ysgol yn casglu ac yn defnyddio data asesu'n dda. Er bod gan yr ysgol bolisi asesu ar gyfer dysgu, mae'r ffordd y caiff y polisi ei roi ar waith yn amrywio gormod ar draws cyfnod allweddol 2. Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu gyda disgyblion, ond nid ydynt yn eu torri i lawr ddigon i alluogi disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i gyflawni'r deilliannau dymunol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno polisi marcio clir yn ddiweddar. Mae athrawon yn ei gymhwyso'n gyson ac yn rhoi cyngor priodol i ddisgyblion am ffyrdd o wella eu gwaith.

Mae adroddiadau ar gynnydd disgyblion yn glir, yn bodloni gofynion statudol ac yn dangos bod athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda.



### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo manteision bwyta'n iach a ffordd iach o fyw a phwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol. Rhoddir cyfrifoldebau ychwanegol i ddisgyblion hŷn i gefnogi bywyd yr ysgol o ddydd i ddydd, ac o ganlyniad, maent yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n weithredol at wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae athrawon yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, a rhoddir cymorth da i'r rhai mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae gan nifer fach o ddisgyblion broblemau ymddygiad, ond mae'r system effeithiol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn cael effaith gadarnhaol nodedig. Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol gyda gwasanaethau arbenigol pan fydd anghenion yn codi.

Mae'r ysgol yn rhoi gofal, cymorth ac arweiniad da iawn i ddisgyblion yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth. Mae'r disgyblion hyn yn elwa ar ddarpariaeth dda o ran cymorth arbenigol, yn cynnwys therapi lleferydd ac iaith a therapi cerddoriaeth. Mae trefniadau da iawn ar gyfer bodloni eu hanghenion dysgu unigol. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ryngweithio'n gymdeithasol â disgyblion prif ffrwd.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, gofalgwr a chroesawgar ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'n gynhwysol o ran ei hymagwedd at ddysgu. Mae staff yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn eu hannog i fanteisio ar holl feysydd y cwricwlwm. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at amrywiaeth a chydarddoldeb.

Mae amgylchedd yr ysgol yn cynnig ystod o ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau addysg ar gyfer nifer y disgyblion a'u hanghenion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r safle a'r tir o'i gwmpas. Mae gwaith adnewyddu diweddar yn arloesol ac yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu cymryd rhan ym mhob agwedd ar y cwricwlwm yn effeithiol. Mae gan yr ysgol amrywiaeth o adnoddau sy'n cyfoethogi'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft y cyfrifiaduron tabled a brynwyd yn ddiweddar a'r ystafell gyfrifiaduron sy'n cynnwys offer da.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Digonol</b>
----------------------------------------------------------------------------	----------------

### **Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi cynnwys staff, disgyblion a rhieni yn llwyddiannus wrth greu gweledigaeth glir, ar y cyd ar gyfer yr ysgol. Mae hyn wedi creu ethos cryf a chynhwysol lle gwerthfawrogir pob disgybl yn gyfartal. Ers ei benodi ym Medi 2010, mae'r pennaeth wedi rhoi sefydlogrwydd i'r ysgol ac wedi gosod cynlluniau cadarn i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Fodd bynnag, nid yw llawer o'r mentrau a'r datblygiadau, er enghraifft y polisi addysgu a dysgu, wedi cael amser i effeithio'n gadarnhaol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth eto. Er bod safonau cyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n ffafriol â safonau cyrhaeddiad y teulu o ysgolion, a bod y ddarpariaeth a'r safonau yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth yn dda iawn, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol eto â phob agwedd ar danberfformio gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Caiff llywodraethwyr adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth, ac maent yn ymwybodol o'r meysydd i'w gwella. Maent wedi canolbwyntio'n gryf ar sicrhau sefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol. Maent yn dechrau ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi, ond mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol yr ysgol yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid ydynt wedi herio'r ysgol ddigon i sicrhau yr aethpwyd i'r afael yn llwyddiannus â holl argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd cadarn wrth fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus. Mae dull ysgol gyfan o addysgu llythrennedd wedi cael ei roi ar waith, ac mae data perfformiad yn dangos bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella oedrannau darllen i ddisgyblion iau. Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion eraill yn ei chlwstwr i greu portffolios pwrpasol ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion. Mae'r ysgol wedi sefydlu grwpiau dysgu teuluol llwyddiannus sy'n helpu i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol yn dda.

### **Gwella ansawdd: Digionol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn cynnwys ystod dda o weithdrefnau monitro a chraffu ar waith disgyblion, arsylwadau ystafell ddosbarth a dadansoddi data perfformiad. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o safonau yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau o weithgarwch monitro yn arwain at welliannau yn ddigon aml.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gywir ar y cyfan, er ei fod yn tueddu i ddisgrifio sefyllfa bresennol yr ysgol, yn hytrach na'i harfarnu. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu yng nghynllun datblygu'r ysgol yn deillio'n briodol o'r prosesau hunanarfarnu yn yr ysgol. Mae cynlluniau amrywiol yn yr ysgol yn cynnwys deilliannau realistig a mesuradwy gyda graddfeydd amser cyflawnadwy. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol sy'n ymwneud â gwella safonau yn rhy eang, nid ydynt yn eglur, ac nid ydynt yn amlinellu deilliannau mesuradwy. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r corff llywodraethol i ddwyn yr ysgol i gyfrif am gyflwyno'r cynllun a gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r ysgol wrthi'n datblygu'n gymuned ddysgu gydweithredol. Mae'r ysgol wedi rhannu arfer dda yn narpariaeth arbenigol yr ysgol gydag ysgolion eraill yn effeithiol. Yn yr ysgol, mae staff wedi cydweithio'n dda i wella ansawdd y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae'n cyfathrebu'n dda gyda rhieni trwy gylchlythyrau, cyfleusterau neges destun a gwefan yr ysgol.

Mae'n cynnig sesiynau hyfforddi llythrennedd a rhifedd i rieni ar y cyd â'r awdurdod lleol. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar alluoedd rhieni i gefnogi dysgu eu plant.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant diogelu cyfoes. Mae'r ysgol yn ymgysylltu ag asiantaethau allanol yn effeithiol i ddarparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi ymestyn ei chydweithio ag ysgolion lleol a'r ysgol uwchradd i wella rhannu syniadau a datblygu agweddau ar y cwricwlwm. Caiff disgyblion eu trosglwyddo mewn modd effeithiol iawn. Mae proses effeithlon ar waith i safoni gwaith disgyblion mewn sawl un o feysydd y cwricwlwm, sy'n cynnwys staff o'r ysgol, ysgolion cynradd y clwstwr a'r ysgol uwchradd leol.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys a staff cymorth ac fe gânt eu defnyddio'n briodol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer pob un o'r staff addysgu wedi cael eu rhoi ar waith, ond nid oes system werthuso ffurfiol ar gyfer staff cymorth. Caiff pob un o'r staff gyfle da i fanteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol, ac mewn llawer o achosion, fe gaiff yr hyfforddiant effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn cydymffurfio â gofynion statudol.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn nodi ac yn dyrannu adnoddau yn unol â'r blaenoriaethau a'r targedau a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae ystod briodol o adnoddau dysgu, ac mae staff yn eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i hyn, ac mae cynlluniau ar y gweill i glirio'r diffyg erbyn diwedd Mawrth 2014.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae'r data ar gyfer yr ysgol yn cynnwys cyrhaeddiad disgyblion yn y cyfleuster addysgu awtistiaeth.

At ei gilydd, mae disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymdeithasol, ieithyddol a mathemategol cymharol wael.

O gymharu â lefelau perfformiad ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn perthynas â dangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwylidig ym mhob maes) yn y 50% uchaf o ysgolion. Mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn perthynas â chyflawni'r deilliannau disgwylidig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg. Fodd bynnag, yn eu datblygiad mathemategol, mae'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae cymariaethau ag ysgolion tebyg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwylidig ym mhob maes) a Saesneg. Mae cymariaethau ar gyfer mathemateg yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg, ond yn y 25% isaf ar gyfer gwyddoniaeth.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion o ran y lefel ddisgwylidig (lefel 4 neu'n uwch) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o gymharu â chyrhaeddiad ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) wedi amrywio rhwng y 50% uwch ac is. Yn aml, mae'r amrywiad hwn yn ymwneud ag achosion pan fydd disgyblion o'r cyfleuster addysgu awtistig yng ngrŵp Blwyddyn 6 yn cael eu hasesu.

Mae perfformiad yr ysgol yn 2012, o gymharu â pherfformiad ei theulu o ysgolion, yn dangos ei bod yn perfformio uwchlaw'r lefel ddisgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ym mhob maes ac eithrio ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Nid yw cymariaethau tebyg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mor gadarnhaol, ac mae canlyniadau gryn dipyn islaw'r disgwyliadau mewn perthynas â Saesneg a gwyddoniaeth.

Roedd canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg gyda'i gilydd yn 2012 yn is nag a fu ers pedair blynedd. O gymharu â lefel yr her a ddangosir yn ei theulu o ysgolion, mae hyn gryn dipyn islaw'r lefel ddisgwylidig.

Mae cyfran y disgyblion prif ffrwd sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd gydag oedran darllen yn well na chwe mis islaw eu hoedran cronolegol yn gymharol dda.

Roedd canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant uwch na'r deilliant disgwylidig (deilliant 6) yn 2012 yn uwch na chyfartaledd y teulu

ond yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob maes dysgu. Roedd canran y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefelau uwch ym mhob pwnc yn 2012 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru. At ei gilydd, mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl mewn mathemateg wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu, ond nid oes patrwm clir dros bedair blynedd ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Yn gyffredinol, mae tuedd ar i lawr yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel yn uwch na'r disgwyl.

Perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'r bwch mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched yn gyffredinol yn llai na yn y teulu ym mhob maes ac eithrio mewn datblygiad mathemategol. Mewn perthynas â'r deilliannau uwch na'r disgwyl, mae bechgyn a merched yn gyfartal mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, ond mae bechgyn yn perfformio gryn dipyn yn well na merched yn y ddau faes arall.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, perfformiodd merched gryn dipyn yn well na bechgyn ym mhob pwnc o ran cyflawni lefel yn uwch na'r disgwyl. Mae'r bwch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched gryn dipyn yn fwy na chyfartaledd y teulu, ac mae merched wedi perfformio'n well na bechgyn yn gyson dros bedair blynedd wrth gyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ym mhob pwnc.

## **Atodiad 2**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cawsom 19 o ymatebion gan rieni.

Maent i gyd yn datgan:

- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac yn hoffi'r ysgol;
- y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau;
- bod eu plentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd; a
- bod disgyblion bob amser yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

Mae bron pob un ohonynt yn datgan:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ac yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn;
- bod y gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; a
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu.

Mae llawer ohonynt yn datgan:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi/pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb.

Nid yw lleiafrif ohonynt yn gwybod neu maent yn datgan:

- nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Wrth ymateb i fwyafrif y cwestiynau, mae ymatebion cadarnhaol rhieni yr un fath, neu'n agos at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae lleiafrif o ymatebion islaw'r cyfartaledd, yn enwedig mewn perthynas â theimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem a'r cymorth ychwanegol a roddir i ddisgyblion unigol.

### **Ymateb i'r holiadur i ddisgyblion**

Cawsom 43 o ymatebion gan ddisgyblion.

Maent i gyd yn datgan:

- bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn cael y gwaith yn anodd;
- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n ddigalon;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; a
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datgan:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae ymatebion cadarnhaol disgyblion uwchlaw'r meincnod cenedlaethol mewn perthynas â'r holl gwestiynau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â phlant eraill yn ymddwyn yn dda.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Maldwyn Pryse	Arolygydd Cofnodol
Enir Morgan	Arolygydd Tîm
Richard Lloyd	Arolygydd Tîm
Susan Willan	Arolygydd Tîm
Rhiannon Boardman	Arolygydd Lleyg
Stuart Pritchard	Arolygydd Cymheiriaid
Mr P Trotman	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.